PAC(3)-05-10 (p3) : 17 Mawrth 2010

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhestr Wirio Arfer Da i Gyrff Cyhoeddus

# Gwella Effeithlonrwydd y Sector Cyhoeddus

Mawrth 2010

## Rhestr Wirio Arfer Da i Gyrff Cyhoeddus

Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wedi defnyddio ein gwybodaeth a'n profiad cyfun i lunio'r rhestr wirio arfer da hon. Ein bwriad yw i'r rhestr wirio hyrwyddo gwelliant a hwyluso gwaith adolygu, myfyrio a hunanasesu ymhlith cyrff a archwilir. Gobeithiwn, drwy nodi'r egwyddorion allweddol sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, y bydd adnodd cyson ar gael i'ch helpu i asesu eich dulliau o ymdrin ag effeithlonrwydd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

AUDIT SCOTLAND

NIAO
Northern Ireland Audit Office

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhan 1: Cyflwyniad** | 4 |
| Yr angen i adolygu gwasanaethau cyhoeddus | 4 |
| Beth sydd ei angen? | 4 |
| Y rhestr wirio | 5 |
| **Rhan 2: Rhestr wirio arfer da i gyrff cyhoeddus** | 8 |
| Cyllidebu a gwario ar sail blaenoriaeth | 8 |
| Gwella gwybodaeth am gynhyrchiant, ansawdd gwasanaethau a pherfformiad | 16 |
| Gwella'r broses o gydweithredu a chydweithio i ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr | 20 |

# Rhan 1: Cyflwyniad

## Yr angen i adolygu gwasanaethau cyhoeddus

1. O ganol 2008 hyd at ddiwedd 2009, roedd economi'r DU mewn cyfnod o ddirwasgiad.[1] Nid yw goblygiadau hirdymor y dirwasgiad o ran arian cyhoeddus a'r pwysau ar ddarparu gwasanaethau eto'n hysbys, ond mae'n amlwg y bydd cwtogi sylweddol ar adnoddau'r sector cyhoeddus, wrth i anghenion a galw barhau i gynyddu.[2]
2. Ym mis Rhagfyr 2009, cyflwynodd y Canghellor ei ddatganiad rhag-gyllidebol yn nodi cynlluniau Llywodraeth y DU ym meysydd trethi a gwariant.[3] Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn y datganiad hwn, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd cwymp gwirioneddol ar gyfartaledd o 3.2 y cant y flwyddyn yng ngwariant Llywodraeth y DU erbyn 2013-14. Mae hyn yn ostyngiad o £35.7 biliwn dros dair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14.[4] Mae'n annhebygol iawn y gellir osgoi'r sefyllfa hon, neu sefyllfa debyg iawn iddi.
3. Er bod pob rhan o'r sector cyhoeddus yn cydnabod bod heriau ariannol difrifol yn ei hwynebu, daw yn anoddach sicrhau'r arbedion sydd eu hangen drwy gyfrwng effeithlonrwydd. Mae angen i gyrff y sector cyhoeddus ystyried hyblygrwydd y gweithlu, gan resymoli'r asedau a ddefnyddir ac ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau. Heb ystyried y fath faterion, prin yw'r disgresiwn sydd gan gyrff cyhoeddus i leihau eu costau tra'n cynnal lefelau ac ansawdd gwasanaethau rheng flaen.

## Beth sydd ei angen?

4. I ateb yr heriau a gyflwynir gan y sefyllfa economaidd bresennol mae angen i gyrff cyhoeddus bwyso a mesur ac ystyried sut y byddant yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd a gwelliant. Mae angen gwneud hyn ar frys, oherwydd mae'n debygol mai blwyddyn ariannol 2009-10 fydd y flwyddyn y gwelir y lefel uchaf o wariant cyhoeddus am gryn amser.
5. Nid ymarfer i reolwyr a darparwyr gwasanaethau yn unig yw'r ymdrech i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae hefyd yn gofyn am arweinyddiaeth ac ymgysylltu cryf o frig sefydliadau. Pwrpas y rhestr wirio hon yw helpu aelodau bwrdd, aelodau etholedig ac uwch reolwyr i roi'r arweinyddiaeth hon a gwirio,

---

[1] Yn ystod dirwasgiad bydd allbwn economaidd yn dirywio, ac fel arfer bydd ond yn cael ei alw'n ddirwasgiad ar ôl dau chwarter neu fwy o dwf negyddol. Fodd bynnag, ystyrir bod twf cyson sy'n is na'r duedd hefyd yn ddirwasgiol ei natur. Er bod economi'r DU bellach allan o ddirwasgiad yn swyddogol, mae'r rhagolygon yn darogan adferiad araf yn 2010, gyda dim ond twf gweddol yn debygol.

[2] Mae *Scotland's public finances: preparing for the future* (Audit Scotland, Tachwedd 2009) yn amlygu'r ffaith bod sector cyhoeddus yr Alban o dan y pwysau ariannol mwyaf ers dyfodiad datganoli ddegawd yn ôl http://www.audit-scotland.gov.uk/utilities/search_report.php?id=1146

[3] *Pre-Budget Report 2009: Securing the recovery: growth and opportunity*, Trysorlys EM, Rhagfyr 2009.

[4] *Public spending,* Cyflwyniad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Rhagfyr 2009.

herio, monitro a chefnogi eu sefydliadau i sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r brif gynulleidfa ar gyfer y rhestr wirio hon yn cynnwys pawb sy'n ymwneud â nodi a monitro gwelliannau mewn effeithlonrwydd, ond yn arbennig arweinwyr ac uwch swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau.

6. Mae'r rhestr wirio yn nodi'r cwestiynau y gall uwch swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau eu defnyddio i asesu datblygiad y sefydliad a herio trefniadau cyfredol. Mae'r rhestr wirio'n seiliedig ar y tair prif elfen y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ymateb sylfaenol:

- cyllidebu a gwario ar sail blaenoriaeth;
- gwella gwybodaeth am gynhyrchiant, effeithlonrwydd a chanlyniadau; a
- chydweithredu a chydweithio gwell (Arddangosyn 1).

## Y rhestr wirio

7. Rôl allweddol i asiantaethau archwilio'r DU yw eu bod yn gweithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwerth am arian yn y sector cyhoeddus. Adlewyrchir hyn mewn adolygiadau diweddar a gwaith a wnaed gan asiantaethau archwilio, gan gynnwys:

- Adroddiad Audit Scotland ar raglen effeithlonrwydd Llywodraeth yr Alban.[5]
- Adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o arbedion sy'n rhyddhau arian parod a gofnodwyd.[6]
- Gwaith Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ar faterion yn ymwneud ag effeithlonrwydd, fel rheoli absenoldeb oherwydd salwch.[7]
- Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar effeithlonrwydd, gan gynnwys ystod o bynciau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ar ei gwefan Cyfnewidfa Arfer Da.[8]
- Adroddiad ar y cyd gan holl asiantaethau archwilio'r DU ar werth am arian gwasanaethau corfforaethol y sector cyhoeddus.[9]

8. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wedi defnyddio ein profiad cyfun i lunio'r rhestr wirio arfer da fanwl a geir yn Rhan 2. Fe'i cyflwynir ar ffurf cyfres o gwestiynau am arfer da, a drefnwyd o dan y tair prif elfen yn Arddangosyn 1. Ei bwriad yw hyrwyddo gwaith adolygu a a myfyrio manwl ac, yn ôl yr angen, fod yn sail ar gyfer gwelliant. Argymhellwn y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am arwain gwaith effeithlonrwydd a gwelliant ystyried asesu eu hunain yn erbyn pob cwestiwn a chofnodi'r canlyniadau.

---

5 *Improving public sector efficiency*, Audit Scotland, Chwefror 2010 http://www.audit-scotland.gov.uk)

6 *Independent Reviews of reported CSR07 Value for Money savings,* Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Rhagfyr 2009.

7 *Managing Sickness Absence in the Northern Ireland Civil Service,* Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, Mai 2008.

8 Er enghraifft: absenoldeb oherwydd salwch, rheoli fflyd, rheoli adeiladau a ffyrdd callach o weithio, gweler http://www.wao.gov.uk/goodpracticeexchange.asp

9 *Gwerth am arian mewn gwasanaethau corfforaethol yn y sector cyhoeddus*, Y Fforwm Archwilio Cyhoeddus, Mehefin 2007.

**Arddangosyn 1**

Elfennau allweddol i sicrhau mwy o effeithlonrwydd a chynhyrchiant

**Cyllidebu a gwario ar sail blaenoriaeth**

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu penderfyniadau anodd yn y sefyllfa economaidd bresennol. Mae angen iddo fynd ati i gyllidebu a gwario ar sail blaenoriaeth, ystyried blaenoriaethau croes a phenderfynu lle i dargedu'r arian cyfyngedig sydd ar gael iddo.

Mae angen i arweinwyr hyrwyddo arloesedd a dysgu systemataidd i gefnogi gwelliant.

Mae angen gwneud rhagor o waith i ddangos cysylltiad clir rhwng blaenoriaethau, cyllidebau a pherfformiad gwasanaethau. Drwy gyllidebu ar sail blaenoriaeth dylai arweinwyr sefydliadau'r sector cyhoeddus:

- nodi'r arian sydd ar gael;
- dangos yn glir sut mae gwasanaethau yn cyfrannu at amcanion a chanlyniadau cenedlaethol a lleol; ac
- adolygu pob polisi a gwasanaeth a phenderfynu a yw'n cynnig gwerth am arian.

Wrth ystyried a yw polisïau a gwasanaethau yn cynnig gwerth am arian, dylai arweinwyr ystyried y canlynol:

- pa rai sy'n gwbl hanfodol i sicrhau canlyniadau cytûn ac sydd eisoes yn cael eu cyflawni a'u darparu yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol posibl;
- pa rai ddylai barhau ond sydd angen eu hailgyflunio neu eu had-drefnu fel eu bod yn fwy effeithlon ac effeithiol; a
- pha rai y gellid rhoi'r gorau iddynt heb effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau.

Mae angen arweinyddiaeth gref ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus er mwyn ymateb i'r heriau hyn mewn modd effeithiol.

**Gwella gwybodaeth am gynhyrchiant, ansawdd gwasanaethau a pherfformiad**

Mae angen gwybodaeth dda er mwyn gwneud penderfyniadau da a bod yn eglur am flaenoriaethau. Yn arbennig, mae angen i'r sector cyhoeddus ddeall yn well y gydberthynas rhwng costau, lefelau ac ansawdd gwasanaethau er mwyn sicrhau gwelliannau mewn cynhyrchiant a lleihau costau.

Mae angen i gyrff cyhoeddus hefyd allu dangos nad yw arbedion effeithlonrwydd wedi arwain at gwtogi'r gwasanaethau a ddarperir (o ran lefel nac ansawdd) neu, os y'u cwtogwyd, fod hynny wedi digwydd yn dilyn dadansoddiad rhesymol o flaenoriaethau.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i gyrff cyhoeddus feddu ar wybodaeth dda am gostau, gweithgarwch, cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaethau a dangos sut mae'r rhain yn gysylltiedig. Dylai cyrff cyhoeddus hefyd asesu faint o le sydd i wella a symleiddio eu prosesau busnes er mwyn dileu unrhyw weithgarwch diangen.

**Gwella'r broses o gydweithredu a chydweithio i ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr**

Bydd newid sylweddol yn effeithlonrwydd y sector cyhoeddus yn gofyn am fwy o gydweithio effeithiol a dileu unrhyw ddyblygu rhwng gwasanaethau.

Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gref ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, mwy o hyblygrwydd, nodi dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau, a goresgyn unrhyw rwystrau traddodiadol i wneud i hyn weithio'n effeithiol.

Mae cael gwybodaeth o safon dda yn hanfodol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd.

Gall cydweithredu a chydweithio fodloni ar sawl ffurf, gan gynnwys contractio gyda darparwyr amgen, gwasanaethau cymorth a rennir a dulliau integredig o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

9. Awgrymwn y dylech gofnodi canlyniadau eich asesiad i ddangos ar wahân:

- p'un a ydych wedi ystyried pob cwestiwn ar gyfer eich sefydliad;
- sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad; a
- chamau gweithredu gofynnol.

10. Y nod cyffredinol yw helpu i nodi p'un a oes angen cymryd unrhyw gamau i wella'r gwaith o sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar gyfer eich sefydliad.

11. Noder mai bwriad y rhestr wirio hon yw cynnig cymorth cyffredinol i gyrff cyhoeddus. Nid yw'n disodli canllawiau ariannol eich sefydliad eich hun na chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU nac unrhyw awdurdodau perthnasol eraill.

# Rhan 2: Rhestr wirio arfer da i gyrff cyhoeddus

## Cyllidebu a gwario ar sail blaenoriaeth

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Rheoli adnoddau mewn sefyllfa ariannol gyfyng** | 1 | A oes gan y sefydliad bwrpas ac amcanion clir sy'n nodi, ar gyfer pob un o'r prif wasanaethau, ganlyniadau, ansawdd a lefel ddymunol y gwasanaethau i'w darparu i ddefnyddwyr? | | | |
| | 2 | Beth yw'r ffactorau allanol pwysicaf sy'n effeithio ar bob gwasanaeth? Sut mae'r sefydliad wedi ymgynghori â defnyddwyr, cymunedau lleol, partneriaid a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ei fod yn eu deall yn gywir? | | | |
| | 3 | A yw blaenoriaethau gwasanaeth y sefydliad yn ystyried yn llawn y lefelau o arian a ragwelir a phwysau ariannol yn y dyfodol – ac yn helpu i'w rheoli'n llwyddiannus? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Rheoli adnoddau mewn sefyllfa ariannol gyfyng** | 4 | O ran y prif wasanaethau a ddarperir gan y sefydliad, a yw'r strategaeth yn adlewyrchu'r canlynol yn benodol:<br>• Dadansoddiad a dealltwriaeth glir o wariant cyfredol?<br>• Adolygiad cost a budd o'r gwasanaeth i benderfynu ar flaenoriaethau strategol ar gyfer buddsoddi a thynnu buddsoddiad yn ôl?<br>• Dealltwriaeth glir o'r galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau allweddol o safbwynt dinasyddion?<br>• Sut y gall anghenion defnyddwyr gwasanaethau newid? | | | |
| **Cefnogi arloesedd a dysgu** | 5 | A oes gan y sefydliad ddull systemataidd o arloesi a dysgu? | | | |
| | 6 | A yw arweinwyr y sefydliad yn cefnogi dysgu ac arloesi effeithiol drwy:<br>• Annog tryloywder, diwylliant o fod yn agored ac ymagwedd adeiladol tuag at berfformiad, heb guddio nac anwybyddu methiannau?<br>• Ffurfio rhwydweithiau y tu allan i'r sefydliad, i rannu gwybodaeth a dysgu gan eraill?<br>• Dangos ymatebolrwydd i syniadau a barn allanol, gan gynnwys ceisio dysgu gan ddefnyddwyr gwasanaethau, staff rheng flaen a darparwyr gwasanaethau? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|
| | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at effeithlonrwydd a gwelliant** | 7 A oes gan y sefydliad ymagwedd strategol a glir tuag at sicrhau effeithlonrwydd, arloesedd a gwelliant, gyda chynlluniau sydd:<br>• Â chysylltiad agos â'i amcanion ehangach ar gyfer gwella gwasanaethau a datblygu'r sefydliad?<br>• Yn anelu at sicrhau enillion a gwella gwasanaethau yn yr hirdymor, ynghyd â gwneud arbedion byrdymor?<br>• Ystyried elfennau allweddol effeithlonrwydd o fewn y sefydliad ac ymhlith partneriaethau, megis costau staff, caffael, rheoli asedau, TGCh ac ailddylunio'r broses fusnes? | | | |
| | 8 A oes gan y sefydliad syniad clir o'r canlyniadau effeithlonrwydd a chynhyrchiant y mae am eu cyflawni a sut y gallai weithio gydag asiantaethau partner (gan gynnwys y sector annibynnol a'r trydydd sector) i gyflawni'r rhain? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Sicrhau perechnogaeth o'r strategaeth effeithlonrwydd** | 9 | A yw arweinwyr y sefydliad wedi helpu i lunio'r strategaeth effeithlonrwydd, arloesedd a gwelliant a sut y byddant yn sicrhau ei bod yn gweithio?<br>• A yw'r strategaeth wedi cael ei chymeradwyo ar lefel bwrdd neu ar lefel cyngor neu'n hyn sy'n cyfateb iddi?<br>• A roddwyd y cyfrifoldeb am hyrwyddo a monitro effeithlonrwydd a gwelliant, gan gynnwys adrodd ar gynnydd, i unigolyn/unigolion penodol?<br>• Pa mor aml y caiff perfformiad ei fonitro yn erbyn y strategaeth? | | | |
| | 10 | A yw'r gwasanaethau a'r unigolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau effeithlonrwydd yn gwybod yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt ac erbyn pryd? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Adolygu gwasanaethau yn rheolaidd** | 11 | A yw'r sefydliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl wasanaethau gynnal adolygiad o'r broses o ddarparu gwasanaethau a'u perfformiad yn rheolaidd? | | | |
| | 12 | A yw adolygiadau o wasanaethau yn adrodd ar y ffordd y mae gwasanaethau wedi'u strwythuro, gan gyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol, gofynion deddfwriaethol a chost ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir? | | | |
| | 13 | A yw'r adolygiadau yn ceisio nodi cyfleoedd i wella prosesau busnes craidd drwy wella llif y gwasanaethau i ddefnyddwyr a dileu gweithgarwch diangen? | | | |
| | 14 | A yw'r adolygiadau yn ystyried dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau, megis gosod gwaith ar gontract neu gydweithio? | | | |
| | 15 | A yw'r rhai sy'n cynnal adolygiadau o wasanaethau yn ddigon diduedd, ee, yn annibynnol ar y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth? | | | |
| | 16 | A gaiff gwaith dilynol systemataidd ei wneud i sicrhau bod canfyddiadau adolygiadau o wasanaethau yn cael sylw a, lle y bo'n briodol, y cymerir camau mewn perthynas â hwy? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Ymgysylltu â staff a chynllunio'r gweithlu** | 17 | A oes gan y sefydliad strategaeth ar gyfer y gweithlu, sy'n nodi cynlluniau i sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio yn unol â'i flaenoriaethau strategol? | | | |
| | 18 | Sut mae'r sefydliad yn cynnwys staff yn y gwaith o nodi meysydd posibl ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd?<br>• A yw staff rheng flaen yn rhan o'r broses o adolygu gwasanaethau?<br>• A oes cymhellion ehangach (megis digwyddiadau gwobrwyo mewnol neu gydnabyddiaeth o gysylltiadau staff) i annog staff i gynnig syniadau am effeithlonrwydd ac awgrymiadau ar ddulliau arloesol o ddarparu/gwella gwasanaethau? | | | |
| | 19 | A yw cynlluniau busnes cyfarwyddiaethau ac amcanion staff unigol yn benodol yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â'r strategaeth effeithlonrwydd, arloesedd a gwella? | | | |
| | 20 | A oes gan y sefydliad ymagwedd ddigon hyblyg tuag at ei gostau o ran y gweithlu i leihau gwariant cyffredinol ar gyflogau? A oes gan bob cynllun busnes gynllun gweithlu cysylltiedig sy'n nodi'r costau a'r amserlenni cysylltiedig? A yw'r sefydliad yn ymgynghori â chynrychiolwyr gweithlu i gytuno ar drefniadau ar gyfer defnyddio ei bobl yn fwy hyblyg? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau** | 21 | A yw'r sefydliad wedi cyfleu ei strategaeth effeithlonrwydd, arloesedd a gwelliant i ddefnyddwyr gwasanaethau? Sut ydych yn gwybod bod defnyddwyr yn ei deall ac yn ei chefnogi? | | | |
| | 22 | Sut mae'r sefydliad yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ac adborth ac awgrymiadau gan gwsmeriaid wrth nodi meysydd posibl ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd? A yw'n gwneud hyn gyda'i bartneriaid er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl? | | | |
| | 23 | Allwch chi ddangos bod adborth ac awgrymiadau gan ddefnyddwyr a chwsmeriaid wedi cael eu hystyried wrth geisio sicrhau gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant? | | | |

| Maes arfer da | | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Edrych ymlaen** | 24 | A oes meysydd y mae angen gwario arnynt nawr i sicrhau arbedion cylchol sylweddol yn yr hirdymor? A yw'r sefydliad wedi ystyried sut y gellir ariannu hyn? | | | |
| | 25 | Beth yw'r goblygiadau ar gyfer gweithlu sy'n heneiddio o ran staffio eich gwasanaethau rheng flaen? Sut mae'r strategaeth effeithlonrwydd yn adlewyrchu'r ffactor hwn? | | | |
| | 26 | A yw'r rhaglen buddsoddi cyfalaf gyfredol yn gynaliadwy yn y sefyllfa economaidd bresennol? Sut mae'r sefydliad wedi pennu blaenoriaethau buddsoddi yn erbyn y tebygolrwydd o ostyngiadau mewn gwariant cyfalaf yn y dyfodol? | | | |

## Gwella gwybodaeth am gynhyrchiant, ansawdd gwasanaethau a pherfformiad

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|
| | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Deall costau darparu gwasanaethau** | **27** A yw'r sefydliad yn nodi ac yn dadansoddi costau mewnbwn pob un o'i brif wasanaethau? Ar gyfer pob gwasanaeth:<br>• A oes gwybodaeth am dueddiadau a syniad o bwysau costau?<br>• A oes gan y sefydliad ddealltwriaeth glir o sut mae costau yn newid mewn ymateb i newidiadau mewn gweithgarwch?<br>• A yw'r sefydliad yn gwybod beth yw costau uned darparu'r gwasanaeth a sut mae hyn yn newid? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|
| | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Deall ansawdd a lefel y gwasanaethau a ddarperir** | **28** A yw'r sefydliad yn nodi ac yn dadansoddi lefel ac ansawdd pob un o'r prif wasanaethau o ran y canlyniadau i ddinasyddion? | | | |
| | **29** Ar gyfer pob gwasanaeth:<br>• A oes gwybodaeth glir am lefel y gwasanaeth a ddarperir o ran diben a chanlyniadau?<br>• A yw'r sefydliad yn cyflwyno adroddiadau ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir?<br>• A all y sefydliad gyflwyno adroddiad ar sut mae ansawdd a lefelau y gwasanaethau wedi newid dros amser?<br>• A all y sefydliad ddangos y cysylltiadau rhwng costau, gweithgarwch ac ansawdd? A yw adroddiadau monitro perfformiad yn dangos y cysylltiadau hyn? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Cyflwyno adroddiadau ar arbedion effeithlonrwydd** | 30 | A oes mesurau llwyddiant cadarn o ran effeithlonrwydd ar waith sy'n adlewyrchu diben a chanlyniadau? | | | |
| | 31 | A yw'r sefydliad wedi pennu llinellau sylfaen ar gyfer cost, ansawdd a lefel pob un o'r prif wasanaethau? A yw'r llinellau sylfaen yn gadarn? | | | |
| | 32 | Wrth gyflwyno adroddiadau ar arbedion effeithlonrwydd, a yw'r sefydliad yn:<br>• Cyflwyno adroddiadau yn gyson dros amser a rhwng prosiectau?<br>• Defnyddio adnoddau i fesur enillion sy'n gyson ac yn ddibynadwy?<br>• Gwneud cymariaethau tebyg at ei debyg â'r data sylfaenol?<br>• Dangos sut mae arbedion effeithlonrwydd yn effeithio ar ei linellau sylfaen o ran cost, ansawdd a lefel gwasanaethau, i ddangos effaith lawn y newidiadau? | | | |
| | 33 | A yw'r sefydliad yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn ei ymagwedd tuag at effeithlonrwydd o ran: staff; y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu; partneriaid; defnyddwyr gwasanaethau; a rhanddeiliaid eraill? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|
| | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Cyflwyno adroddiadau ar arbedion effeithlonrwydd** | 34 A all y sefydliad ddangos pa enillion effeithlonrwydd a gyflawnwyd drwy brosiectau unigol a sut mae'r enillion hyn wedi gwella'r gwasanaethau a ddarperir? | | | |

## Gwella'r broses o gydweithredu a chydweithio i ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Gwneud y defnydd gorau o drefniadau cydweithredu a chydweithio** | **35** | A yw'r sefydliad wedi asesu cyfleoedd o ran arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell drwy gydweithio'n well fel rhan o'r ymagwedd strategol tuag at arbedion effeithlonrwydd? Er enghraifft, cyfuno adnoddau, dileu dyblygu, gwasanaethau a rennir neu ailgynllunio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd radical? | | | |
| | **36** | A yw'r sefydliad yn gwybod ei feysydd o arfer da ei hun ac yn rhannu hyn ym mhob rhan o'i sector, ac yn ehangach, fel y bo'n briodol? | | | |
| | **37** | A yw pob adolygiad o wasanaethau yn asesu'r posibilrwydd o gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau gwell yn y system gyfan mewn ffordd fwy costeffeithiol? | | | |
| | **38** | Ar gyfer pob prif wasanaeth, a yw'r sefydliad wedi gweithio gyda phartneriaid lleol allweddol i nodi'r potensial i sicrhau canlyniadau ac effeithlonrwydd gwell drwy gydweithredu? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Gwneud y defnydd gorau o drefniadau cydweithredu a chydweithio** | **39** | A yw'r gwaith sy'n mynd i mewn i bartneriaethau yn sicrhau gwelliannau amlwg o ran hygyrchedd, ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus? Sut y gellir dangos hyn? | | | |
| | **40** | A yw'r sefydliad wedi wynebu unrhyw anawsterau neu amharodrwydd wrth sefydlu trefniadau gweithio mewn partneriaeth? A oes angen cymorth ychwanegol ar bartneriaethau i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol? Pa rôl ddylai arweinwyr ei chwarae wrth roi'r cymorth hwn? | | | |

| Maes arfer da | Pwyntiau allweddol i'w hystyried | Ystyriwyd (Do/Naddo?) | Sylwadau i gefnogi neu egluro eich asesiad | Camau gweithredu gofynnol |
|---|---|---|---|---|
| | | *Rydym wedi gadael y colofnau hyn yn wag er mwyn i ddarllenwyr eu cwblhau* | | |
| **Defnyddio prosesau meincnodi i nodi arbedion effeithlonrwydd posibl** | **41** A oes gan y sefydliad strategaeth glir ar gyfer meincnodi pob un o'i brif wasanaethau? | | | |
| | **42** O ran pob prif wasanaeth, a yw'r sefydliad yn deall y canlynol yn llawn:<br>• Y math o wybodaeth meincnodi sydd ei hangen? [10]<br>• Manteision posibl rhannu gwybodaeth meincnodi? | | | |
| | **43** A all y sefydliad fonitro a meincnodi pob gwasanaeth rheng flaen? | | | |
| | **44** A yw'r sefydliad yn wynebu unrhyw rwystrau o ran darparu a chael gwybodaeth meincnodi? Beth a wnaiff i oresgyn unrhyw rwystrau? | | | |
| **Defnyddio dulliau gwelliant parhaus** | **45** A yw'r sefydliad wedi mabwysiadu dulliau gwelliant parhaus i adolygu systemau ac arferion ar gyfer darparu gwasanaethau? Pa le sydd i ymestyn y gwaith adolygu hwn? | | | |
| | **46** A yw'r sefydliad yn gwybod pa fodelau gwelliant parhaus sy'n cael eu defnyddio mewn cyrff tebyg yn y sector cyhoeddus? Sut y gall ddysgu o'r gweithgaredd hwn? | | | |

[10] Gall meincnodi gwasanaeth gynnwys: cymharu polisïau, allbynnau a chanlyniadau; cymharu strwythurau a phrosesau sefydliadol; a chymharu costau a lefelau gweithgarwch.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk